



Mr Peter Morris
Cynllunio Gofodol a
Threftadaeth Adeiledig
Cyngor Sir Powys
Y Gwalia,
Ffordd Ithon
Llandrindod
Powys
LD1 6AA.

Ein cyf: qa1170816
Eich cyf:

17 Tachwedd 2016

Annwyl Peter,

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Powys (2011- 2026) – Ymgynghoriad ar yr Atodlen o Newidiadau Penodol Ychwanegol Arfaethedig

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y Newidiadau Penodol Ychwanegol Arfaethedig (NPY) i Ddrafft Adnau Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Powys. Rydym yn cydnabod bod paratoi CDLI a sylfaen dystiolaeth ategol yn orchwyl sylweddol i bob awdurdod cynllunio lleol ac yn sylweddoli faint o waith y mae eich awdurdod wedi'i wneud, ac yn rhoi pwyslais arbennig ar ddull gweithio cadarnhaol ac ymrwymiad eich awdurdod i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd gan yr Arolygwyr yn y Cyfarfod Cychwynnol ym mis Mai.

Yn dilyn y Cyfarfod Cychwynnol, gwelwyd ymrwymiad corfforaethol o ran adnoddau, yn cynnwys rhai ariannol, i fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd gan yr Arolygydd. Mae hyn wedi arwain at gomisiynu gwaith technegol ychwanegol, adolygu'r gwaith presennol, a rhoi eglurhad pellach o sefyllfa'r Cyngor, a dyma sy'n hysbysu ac yn ategu'r ymgynghoriad presennol.

Dwy swyddogaeth Llywodraeth Cymru ym mhroses y CDLI yw cynorthwyo awdurdodau cynllunio lleol i leihau'r risg o baratoi Cynlluniau gwan a sicrhau bod Cynlluniau yn mynd i'r afael â pholisïau cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynorthwyo Powys i baratoi ei Gynllun ers 2012 trwy sylwadau ffurfiol ac anffurfiol, cyfarfodydd a chyngor o ddydd i ddydd. Trwy gydol y gwaith o baratoi eich Cynllun, ein neges allweddol oedd y gofyniad i'r CDLI fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Arweinir y system gynllunio datblygu yng Nghymru gan dystiolaeth ac mae dangos sut mae Cynllun wedi'i lunio gan y dystiolaeth yn ofyniad allweddol wrth archwilio'r CDLI.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydnabod cyfraniad parhaus ac esblygol swyddogion y Cyngor. Mae hyn wedi arwain at berthynas weithio adeiladol iawn rhwng y naill a'r llall er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth yn cael ei chyfleu mor glir â phosibl. Wrth gwrs, y Cyngor sy'n gyfrifol o hyd am gyfiawnhau'r cynllun; ond mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn sylweddoli'r ymdrech ddwys a natur eang y dystiolaeth ychwanegol sydd wedi'i chasglu gan y swyddogion mewn cyfnod byr iawn. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad gan uwch-swyddogion i ddatblygu'r cynllun.

Rydym wedi adolygu'r Atodlen o Newidiadau Penodol Ychwanegol ac yn credu bod **y newidiadau arfaethedig a'r dystiolaeth ategol, mewn llawer o achosion, yn mynd i'r afael â llawer o'r pryderon allweddol** a godwyd gennym mewn sylwadau blaenorol. Er enghraifft, y rheini a oedd yn ymwneud â'r strategaeth ofodol, darparu a chyflenwi tai, tai fforddiadwy, hyfywedd, cyflogaeth ac ynni adnewyddadwy. Er ein bod yn parhau i nodi rhai sylwadau ar y materion hyn (gweler drosodd), ni chânt eu hystyried yn sylfaenol bellach gan ystyried y gwaith ychwanegol a'r diwygiadau arfaethedig.

Mae'r cyfiawnhad pellach a roddwyd (EB35) o ran lefel y tai a ddarperir sy'n gwyro 400 o aneddiadau dros brif amcanestyniad WG-2011 yn ddefnyddiol. Wedi ystyried y mater, nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu lefel y tai a ddarperir yn y cynllun ac yn credu bod y Cyngor wedi cyfiawnhau'r gwiriad hwn yn unol ag egwyddorion Polisi Cynllunio Cymru a'r materion allweddol y mae'r CDLI yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Cefnogir yr eglurder ychwanegol a gyflwynwyd gan y polisiau strategol (NPY21 ac NPY22) o ran y strategaeth ofodol a'r hierarchaeth aneddiadau. Mae'n amlwg fod y CDLI yn parhau i ddsbarthu datblygiadau i'r aneddiadau mwyaf cynaliadwy. Adlewyrchir hyn yn lefel ddiwygiedig y tai a ddarperir ac yn y dosbarthiad gofodol yn Nhabl H2 (NPY 11) sy'n dangos bod 84% o'r tai a ddarperir mewn trefi a phentrefi mawr. Caiff y dull hwn ei ddangos yn gyffredinol hefyd yn nosbarthiad gofodol tir cyflogaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull gweithio hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y gwaith technegol a ddiweddarwyd (EB 42a, EB42b, EB42c, EB29) yn dangos eglurder o ran y cydrannau tai amrywiol sy'n sail i'r ddarpariaeth o dai, a gefnogir bellach gan bwyslais gwell ar gyflenwi.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn credu bod y sylfaen dystiolaeth o ran hyfywedd (EB13, 21, 43) wedi symud ymlaen yn sylweddol. Yn gyffredinol, ymddengys bod cysylltiad cryf rhwng y sylfaen dystiolaeth a'r canrannau hyfywedd y ceisir eu cael yn y polisi arfaethedig.

Mae'r atodiad drosodd yn amlygu ein sylwadau o ran yr ymgynghoriad hwn a gellir mynd i'r afael â nhw, eu diwygio neu eu hegluro trwy sesiynau gwrandawiaadau os yw'n briodol yn nhyb yr Arolygydd.

Yn gywir,

Mark Newey
Pennaeth y Gangen Cynlluniau,
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Atodiad

Atodiad:

Hierarchaeth Aneddiadau NPY21- Mae'n cyflwyno polisïau strategol newydd, yn cynnwys SP5: Hierarchaeth Aneddiadau ac SP6: Dosbarthu Twf ar draws yr Hierarchaeth Aneddiadau. Croesawir yr eglurder ychwanegol ynghylch yr uchod. Fodd bynnag, mae angen eglurhad ar Lywodraeth Cymru o'r gwahaniaeth rhwng yr Haen Anheddiad Gwledig a'r Cefn Gwlad Agored. Mae paragraff 3.4.8 o'r Cynllun Cyfansawdd yn nodi y caiff aneddiadau gwledig eu diffinio fel a ganlyn: *'aneddiadau sydd wedi'u henwi / eu cydnabod yn hanesyddol; ac wedi'u lleoli mewn amgylchedd gwledig ac yn cynnwys o leiaf 10 o anheddau; a gallant fod yn glwstwr o anheddau neu'n fwy gwasgaredig'*. Cred Llywodraeth Cymru nad yw'n glir sut y caiff y ddwy haen anheddiad hyn eu diffinio. Mae hap-bapur ychwanegol y Cyngor (EB42c) yn cyfeirio at anedd gwledig fel y rhai a restrwyd yn flaenorol yn y Cynllun Datblygu Unedol? Ni fyddai'n briodol dibynnu ar ddynodiad mewn cynllun blaenorol i wybod a ydych mewn 'annedd gwledig' neu beidio. Hefyd, nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng anedd gwledig a'r hyn a ystyrir yn gefn gwlad agored gan fod y ddau yn syrthio y tu allan i ffiniau aneddiadau. Mae angen i'r Cyngor egluro diben a pherthynas y ddwy haen unigol yn hyn o beth, yn enwedig gan fod y ddau ohonynt yn bolisïau 'safleoedd eithrio' (PPW a TAN6) ac ystyried sut gellir nodi/diffinio beth yw anheddiad gwledig yn fwy clir. Caiff y mater hwn ei gymhlethu ymhellach gan **NPY59** lle y mae anheddiad gwledig a'r cefn gwlad agored wedi'u grwpio gyda'i gilydd ym Mholisi H1 a chyda'r un meini prawf? Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr y cynllun a phenderfynwyr yn glir o ran pa bolisi sy'n gymwys a pha ddatblygiad fydd yn dderbyniol yn y lleoliadau hyn. Bydd esbonio a diffinio aneddiadau gwledig a chefn gwlad yn fwy clir hefyd o gymorth i egluro a defnyddio Polisi H7: Cartrefi Fforddiadwy Gwledig.

Y Gymraeg NP44: Mae'r newidiadau penodol arfaethedig yn cyflwyno paragraffau rhesymegol newydd sy'n cyfiawnhau Polisi DM14. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wrthwynebiad i union eiriad y polisi na'r modd o nodi ardaloedd gofodol. Fodd bynnag, mae'r cyfiawnhad rhesymegol yn cyflwyno geiriad ychwanegol sy'n newid pwyslais y polisi, a pha ardaloedd datblygu/gofodol y mae'n ymwneud â nhw, sy'n groes i TAN 20. Noda paragraffau 4.2.65 fod datblygiadau tai mawr newydd o 10 anedd neu ragor mewn aneddiadau haen uwch lle y mae mwy na 25% o'r boblogaeth yn siarad Gymraeg yn gallu cael effaith niweidiol. A all yr awdurdod gadarnhau mai'r lleoedd hyn yw'r rhai a ddiffiniwyd ym mholisi DM14? Dylai hynny fod yn wir. Mae'r geiriad 'yn ogystal â' yn awgrymu fel arall. Os yw hyn yn wir, yna mae'r dull yn groes i TAN 20. Hefyd, aiff paragraff 4.2.66 ymlaen i ddweud y bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i *"effaith gronno' datblygiadau arfaethedig â llai na 10 anedd, ynghyd â chaniatâd cynllunio sy'n bodoli a chynigion cyfredol o fewn yr aneddiadau a nodwyd, a'r rheini mewn aneddiadau llai o faint, o fewn cadarnleoedd y Gymraeg'*. Mae'r paragraff hwn yn gymwys i bob man a phopeth yn y cynllun bron a bod, ar gyfer datblygiadau a ganiateir a datblygiadau arfaethedig, sy'n gwbl groes i TAN 20, a dylid ei ddileu hwn.

Mae angen diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i'r polisi yn unol â hyn i adlewyrchu'r polisi cenedlaethol. O ran strategaeth y cynllun, mae pob safle (gan gynnwys safleoedd ar hap, dyraniadau a safleoedd â chaniatâd presennol) wedi'u nodi yn y cynllun i gyflenwi ar y ddarpariaeth gyffredinol. Dylai'r rhain fod wedi'u hasesu fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar y Gymraeg. Dylai hyn fod yn rhan o'r SA/SEA. Ni fyddai'n briodol i wrthod ceisiadau cynllunio wedi hyn ar safleoedd a nodwyd oherwydd materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Dylai'r cynllun nodi'n glir mai dim ond y safleoedd ar hap hynny nad ydynt wedi'u hystyried yn y cynllun ddylai fod yn destun craffu pellach yn ystod cyfnod y cais cynllunio. Hefyd, nid yw'n glir beth yw diben Polisi H2 (Meini prawf ii) sy'n gofyn am gynllun graddol **NPY61** ar gyfer cadarnleoedd y Gymraeg. Mae angen egluro'r berthynas rhwng y gofyniad hwn a pholisi'r laith Gymraeg gan ystyried ein sylwadau blaenorol uchod.

Sipsiwn a Theithwyr: Neilltuo Safleoedd. Addasrwydd a'r Gallu i Gyflawni NPY69: Daw'r Drafft diwygiedig o Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 (EB03a) i'r casgliad bod angen 5 llain ym Machynlleth erbyn 2021 a 2 llain yn y Trallwng erbyn 2026. Yn gyntaf, dylid rhestru'r man(nau) a neilltuwyd a'r lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr mewn polisi neilltuo safle ar wahân er mwyn ychwanegu eglurder i'r cynllun. Hefyd, mae angen cynnwys yr amserlen ar gyfer diwallu'r anghenion neilltuo arfaethedig yn y fframwaith monitro. Nid yw'r cynllun yn sôn am y mater hwn ar hyn o bryd. Nodir bod y Cyngor yn edrych ar ddewisiadau safle i ddiwallu'r angen a nodwyd (EB28). Rhaid cwblhau'r gwaith hwn cyn sesiwn y gwrandawriad archwilio er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r polisi cenedlaethol angenrheidiol. Mae'n hollbwysig fod y CDLI yn gwneud ymrwymiad clir i gyflenwi lefel yr angen yn yr amserlenni a nodwyd.

Rydym yn ymwybodol o raglen waith barhaus y Cyngor (EB28) o ran dod o hyd i safleoedd priodol a diwallu'r angen a nodwyd a nodwn y gallai'r gwaith hwn arwain at newidiadau i'r neilltuo arfaethedig ar Ffordd y Drenewydd. Fodd bynnag, neilltuo arfaethedig ydyw ar hyn o bryd ac mae Atodiad 1 o'r CDLI yn nodi bod materion yn bodoli sy'n ymwneud â pherygl o lifogydd. Nid yw'n amlwg sut mae'r neilltuo arfaethedig yn cyd-fynd â'r polisi cenedlaethol yn hyn o beth. Yn ogystal, mae paragraff 19 o Gylchlythyr 30/2007 Llywodraeth Cymru, 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr' yn nodi y dylid ystyried llifogydd wrth asesu addasrwydd safle. Mae'n nodi, "peidio â lleoli safleoedd mewn ardaloedd sydd â pherygl uchel o lifogydd, gan gynnwys gorlifdiroedd gweithredol, o ystyried gwendid penodol carafanau". Mae Perygl o Lifogydd o ran mynd a dod o safle yn ystyriaeth allweddol o bolisi cenedlaethol. Cred Llywodraeth Cymru y dylai'r cynllun ddangos bod gan yr ardal (neu unrhyw safleoedd eraill a ddewisir o ganlyniad i'r gwaith a amlygwyd yn EB28) ddigon o gapasiti ar gyfer y defnydd a'r maint a nodwyd er mwyn osgoi gwrthdaro mewn cyswllt â pherygl o lifogydd.

Cyflwyno fesul cyfnod. Cyflenwi a Seilwaith Atodiad 1 - NPY90: Nid yw'n amlwg yn y cynllun pryd y bwriedir cyflwyno safleoedd yn raddol dros gyfnod y CDLI. Nid oes sôn am gyflwyno safleoedd yn raddol o fewn yr atodiad diwygiedig. Dylai fod. Nodir bod gwaith ychwanegol o ran cyflwyno safleoedd a chydannau yn raddol yn y Papur Trywydd (EB29); ond dylid cynnwys cyflwyniad graddol safleoedd yn y cynllun er mwyn caniatáu eglurder a monitro effeithiol. A all yr ACLI gadarnhau bod cyflwyniad graddol y safleoedd yn y cynllun/trywydd yn adlewyrchu'r rhwystrau a nodwyd yn Atodiad 1, megis seilwaith carthffosiaeth? Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod y Cyngor yn gwneud Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) gyda Dŵr Cymru i ddangos y gellir darparu seilwaith perthnasol i gefnogi'r datblygiad.

O ran y trywydd tai yn benodol, nid yw'n glir sut mae'r lwfans hyblygrwydd yn ymwneud â chyflwyno tai yn raddol dros gyfnod y cynllun. Yn fwy penodol, nid yw'n glir a oes digon o hyblygrwydd ar fannau cyfyngedig allweddol/gydol cyfnod y cynllun i ymdrin â materion nas rhagwelwyd a allai effeithio ar gyflawni. Ar hyn o bryd, nid yw Ffigur 1 yn cynrychioli cyfanswm y ddarpariaeth a nodwyd. Dim ond y gofyniad tai a ddangosir a'i gyflwyniad graddol dros weddill blynnyddoedd y cynllun. Nid yw'n glir lle y ceir hyblygrwydd dros gyfnod y cynllun. Byddai'n ddefnyddiol pe byddai Ffigur 1 yn cael ei ddiwygio i gynnwys cyflawniadau hyd yma, cyfradd adeiladu'r tai sydd ar ôl ar gyfartaledd, a ddylai gael ei ddiwygio i 350 o anheddau y flwyddyn, nid 300 gan nad oes digon wedi'u darparu eisoes ym mlynnyddoedd cynnar cyfnod y cynllun, a dylai'r graff ddangos cyfanswm yr holl ddarpariaeth, nid y gofyniad. Bydd hyn yn galluogi pob parti i ddeall y berthynas rhwng y gofyniad am dai a'r lwfans hyblygrwydd yn y cynllun, a sicrhau y gellir darparu lefel y tai fel y rhagwelwyd a chynnal cyflenwad o dir am bum mlynedd.

Cyflogaeth:

NPY49: Dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) egluro diben Polisi DM17. Ceir cyfeiriad ato yn Natganiad Sefyllfa'r Cyngor ar Dir Cyflogaeth (EB44) fel polisi sy'n diogelu safleoedd cyflogaeth presennol, ond ymddengys fod hyn yn groes i'r polisi ei hun, sy'n caniatáu i safleoedd cyflogaeth presennol gael eu defnyddio at bethau eraill. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu egwyddor NPY49, dylai'r Awdurdod ystyried cynnwys polisi newydd sy'n nodi ac yn diogelu'r

safleoedd cyflogaeth allweddol presennol a nodwyd yn y Datganiad Sefyllfa (EB44). Bydd hefyd angen cynrychioli unrhyw safleoedd o'r fath yn ofodol ar y Map Cynigion. Credir bod polisi diogelu yn hanfodol i gyflawni strategaeth twf economaidd y Cyngor a hyrwyddo cynhyrchiad ac ehangiad busnesau presennol Powys.

NPY52: Mae'r Datganiad Sefyllfa ar Dir Cyflogaeth (EB44) yn nodi bod llawer o ddyraniadau cyflogaeth y Cyngor ym Mholisi E1 a Pholisi E3 ar ystadau Dosbarth B presennol. Er mwyn cefnogi cynhyrchiad ac ehangiad busnesau presennol, dylai'r Cyngor gynnig sicrwydd y gellir cyflawni'r holl ddyraniadau cyflogaeth gyda'r seilwaith ffisegol a chymdeithasol priodol ar waith i ganiatáu i'r dyraniadau gael eu cyflawni.

Er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynhwysiant dyraniadau ym Mholisi E1 trwy NPY52, mae angen eglurhad ar faint y safleoedd cyflogaeth a pha un a yw'r ffigurau yn y polisi yn rhai gros neu net? Er enghraifft, mae Atodiad 1 yn nodi mai dim ond rhan o Barc Busnes Calon Cymru (Dyraniad Safle - P28 EA1) y gellir ei ddatblygu. A fyddai hyn yn lleihau maint y safle o 3.9ha ym Mholisi E1?

Os yw'r Cyngor yn ceisio hyrwyddo defnydd ategol o safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd, dylid nodi hyn yn glir ym Mholisi E1 a Pholisi E2 ac nid ei gynnwys yn y testun cyfiawnhad rhesymegol.

Bwlch mewn Polisi: Mae TAN 6 yn gosod gofyniad ar Awdurdodau i hyrwyddo twf economaidd mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan ystyried natur wledig a wasgaredig datblygiadau ym Mhowys. Er mwyn bod yn gyson â TAN 6, dylai'r Awdurdod ystyried cynnwys polisi newydd i gefnogi safleoedd eithrio cyflogaeth wledig a thwf cyfleoedd gweithio o gartref.

Gwastraff - NPY78: Mae TAN 21 yn cydnabod y dylai CDLI nodi pan fydd safleoedd addas a phriodol yn bodoli ar gyfer darparu pob math o gyfleusterau rheoli gwastraff er mwyn darparu sicrwydd i weithredwyr gwastraff sydd â diddordeb mewn ateb y galw mewn ardal (paragraff 3.21). O ran hyn, dylai'r dyraniadau cyflogaeth a restrir ym Mholisi E1 a Pholisi E3 gael eu nodi fel safleoedd sy'n addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff pan fo'n briodol.

Mae Meini Prawf 1 a Meini Prawf 4 o Bolisi W1 yn nodi bod pob dyraniad cyflogaeth yn addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewn adeilad a storfa dros dro ar gyfer gwastraff anadweithiol trwy NPY78. Fodd bynnag, lleolir rhai o'r dyraniadau cyflogaeth yn gyfan gwbl neu yn rhannol o fewn Parth Llifogydd C2 (e.e. dyraniad PO2 EA1) a dylai'r Cyngor ystyried pa mor addas ydynt ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff. Nid yw TAN 15 yn caniatáu datblygiadau sydd dan fygythiad mawr, yn cynnwys safleoedd gwaredu gwastraff, ym Mharth Llifogydd C2.

Er mwyn cydymffurfio â gofynion TAN 21, dylai'r Cyngor ystyried diwygio polisïau'r cynllun er mwyn:

- Gofyn i Asesiad Cynllunio Gwastraff gael ei gyflwyno â phob cais ar gyfer cyfleuster gwastraff (paragraff 4.2);
- Cefnogi cyfleusterau a lle digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff wrth ddylunio unrhyw ddatblygiad (paragraff 3.25), a

Dylid cynnwys y safleoedd a nodir gan y Cyngor fel rhai sy'n addas ar gyfer 'chwareli trefol' yn y cyfiawnhad rhesymegol (paragraff 4.9.8) ym Mholisi W1 er mwyn llywio eu lleoliad.

Mwynau

NPY37 - Polisi DM7: Nid yw geiriad y Polisi yn cyfeirio at ddiogelu creigiau caled; er y dangosir eu bod yn cael eu diogelu ar y Map Cynigion. Dylid diwygio'r polisi felly er mwyn cyd-fynd â'r dynodiad gofodol ar y Map Cynigion.

Maen prawf 6: Nid yw'n glir pam fod "ffensys, waliau neu gabanau aros bysiau" wedi'u cynnwys? Ni ystyrir y rhain yn bethau sy'n effeithio'n niweidiol ar ddiogelu adnoddau mwynol. Dylid dileu'r cyfeiriadau hyn.

Mae paragraff 4.2.41 o'r cynllun yn cyfeirio at lo trydyddol ger Coedway yn Sir Drefaldwyn. Gan nad yw polisiau cenedlaethol yn gofyn am ddiogelu adnoddau trydyddol, a all y Cyngor ddangos nad yw'r adnodd trydyddol hwn wedi'i ddiogelu ar y Map Cynigion?

NPY38 - Polisi DM8: Er y cyfeirir at Glustogfeydd 500m ar gyfer glo yn y polisi, byddai'n fuddiol pe bai'r cyfiawnhad rhesymegol (paragraff 4.2.43) yn cyfeirio at yr amgylchiadau eithriadol a nodir ym mharagraff 49 (MTAN2: Glo). Byddai croesgyfeirio yn ddigonol.

Nid yw maen prawf 1 o reidrwydd yn y polisi hwn gan ei bod yn cyfeirio at sterileiddio adnodd, a diben y polisi hwn yw mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â naill ai diogelu datblygiadau sensitif rhag gwaith adnodd neu allu'r adnodd i gael ei weithio.

NPY81 - Polisi M1: Nid yw'n glir sut y byddai'r polisi yn berthnasol i gynigion datblygu o ran ystyried materion megis sŵn, gwaith ffrwydro, effeithiau amgylcheddol ac ati. Pa feini prawf fydddech chi'n cymharu'r cynnig â nhw'n benodol? Mae'r CDLI a fabwysiadwyd gan Sir Gaerfyrddin (Polisi MPP1) yn nodi'r meini prawf y gellir ystyried polisiau yn eu herbyn. Ymddengys y byddai'n briodol i'r materion hyn gael eu cymhwyso yn yr un modd ym Mhowys. Byddai hefyd yn ddoeth i'r dull gweithio hwn fod yn berthnasol i safleoedd mwynau presennol a safleoedd newydd, h.y. cael cyfres glir o feini prawf i ystyried cynigion datblygu yn eu herbyn ar gyfer safleoedd presennol a newydd.

Mae paragraff 4.11.5, cefnogi Polisi M1, i'w weld yn cynnwys y polisi: "*Ni chaniateir cynigion ar gyfer cloddio am fwynau oni bai bod*" Ymddengys fod hyn yn debyg i bolisi adfer ac ôl-ofal. Os mai dyma'r bwriad, dylid cynnwys hyn mewn polisi.

Mae paragraff 4.11.7 yn cyfeirio at feirniadu ynni hydrocarbon anghonfensiynol yn erbyn polisiau dylunio a diogelu amgylcheddol perthnasol y cynllun. Fodd bynnag, nid yw Polisi M1 yn sôn am y materion hyn. Byddai cynnwys hydrocarbon anghonfensiynol mewn polisi rheoli datblygiadau cyffredinol yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn.

Perygl o Lifogydd NPY90: Mae safleoedd amrywiol â rhannau ohonynt o fewn parth llifogydd C2 a C1 fel y nodwyd yn Atodiad 1. Dylai'r ACLI ddangos ei fod wedi cydymffurfio â pholisiau cenedlaethol a bod gan yr holl safleoedd/dyraniadau y gallu i ymdopi â'r raddfa twf arfaethedig a'u bod yn gallu cael eu darparu o fewn cyfnod y cynllun.

Polisi Bioamrywiaeth DM2 NPY26: Mae angen eglurhad er mwyn esbonio pa mor rhesymol, ymarferol o ran ei weithredu a hawdd ei gyflawni yw gwneud 'budd net' yn ofynnol o ran bioamrywiaeth. Pa wybodaeth sylfaenol sydd ar gael i gyflawni a monitro'r gofyniad hwn? Beth mae budd net yn ei olygu yn ymarferol? Mae angen i'r awdurdod lleol ddangos bod hyn wedi'i brofi i ddangos y gellir ei gyflawni a pha un a yw'n effeithio ar ddichonoldeb datblygiad.

Mae adran 3.3.2 TAN 5 yn nodi y dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gynnwys polisiau sy'n diogelu safleoedd dynodedig cenedlaethol a lleol, gan egluro'r pwysau perthnasol y dylid ei roi ar y gwahanol ddynodiadau. Nid yw'r dull gweithio a nodwyd ym mholisi DM2 yn dangos hierarchaeth safleoedd bioamrywiaeth ac mae'n cymhwyso'r un profion i safleoedd Ewropeaidd â safleoedd Cenedlaethol. Felly, dylai'r polisi hwn nodi meini prawf priodol ar gyfer safleoedd cenedlaethol a rhyngwladol; dylai'r profion a wneir fod yn gymesuro'l â lefel y dynodiad sy'n cael ei ystyried.

Man Agored DM2a NPY27: Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cynnwys darpariaeth polisi DM2A ar gyfer man agored, ond mae angen codi'r safonau y cyfeirir ato yn y cyfiawnhad rhesymegol (4.2.19) i'r polisi, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru (11.2.2).

Tirwedd DM3 NPY28: Mae'r cyfiawnhad rhesymegol i Bolisi DM3 (4.2.25) yn cymhwyso Polisi SP1 o CDLI Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i gais a allai effeithio ar y Parc Cenedlaethol. Ni fyddai'n briodol dibynnu ar bolisiâu mewn cynllun datblygu arall. Mae angen polisi neu faen prawf newydd yn y polisi hwn er mwyn gallu ymdrin â'r mater hwn o fewn y CDLI hwn.

Polisi DM15: Dylunio ac Adnoddau NPY46: Mae'r polisi a'i gyfiawnhad rhesymegol yn ymddangos yn hir ac yn gymhleth iawn, gan gynnwys amrywiaeth o faterion yn yr un polisi. Dylai'r awdurdod ystyried rhannu'r polisi hwn er mwyn sicrhau eglurder i'r cynllun, gan osgoi dyblygu polisiâu eraill. Er enghraifft, sut mae'r gofynion ar gyfer manau agored yn y polisi hwn yn ymwneud â DM2a? A ddylid eu huno mewn un polisi?

O ran maen prawf 14, mae angen eglurhad i esbonio pa mor ddichonol, ymarferol o ran ei weithredu a hawdd ei gyflawni yw'r gofyniad i bob datblygiad gynnal ymchwiliadau ar ddichonoldeb a hyfywedd ariannol rhwydweithiau gwresogi. Nid yw'n glir ychwaith sut y bydd y polisi yn cael ei gymhwyso'n ofodol.

Monitro: Mae angen i'r Fframwaith Monitro fod yn ddigon clir a sensitif i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni. Dylai fframwaith monitro tryloyw a chynhwysfawr fod yn rhan annatod o CDLI. Ar hyn o bryd, mae gan fframwaith monitro'r CDLI wendidau, gan gynnwys amrywiaeth rhy eang, diffyg trothwyon a chymau gweithredu amwys i fynd i'r afael â materion. Mae Llywodraeth Cymru yn barod i weithio gyda'r awdurdod lleol i wella'r fframwaith monitro.
